



## Polisi (Adran Addysg Gwynedd)

### Darparu ar gyfer plant teuluoedd mewn amgylchiadau anodd

#### 1. Cyflwyniad

Mae'r polisi'n ymwneud ag unhryw ddisgybl sydd yn ymdopi o ddydd i ddydd mewn amgylchiadau anodd. Mae ymddieithrio o'r ysgol yn aml yn cyd-ddigwydd â digwyddiadau yn y cartref yn cynnwys cam-drin, profedigaeth, bygythiad o briodas wedi'i threfnu a digwyddiadau traumatig eraill na fydd ysgolion neu weithwyr proffesiynol yn sylwi arnynt.

#### 2. Cyd-destun

2.1 Gallai amgylchiadau cartref ar draws y spectrwm gael effaith andwyol ar ddatblygiad emosiynol ac addysgol plant.

2.2 Mae ymchwil yn awgrymu bod plant sydd wedi profi tryblith a newid yn y teulu yn fwy tebygol na'u cyfoedion o adael ysgol yn gynnar gyda llai o gymwysterau, i driwantu, i gael eu gwahardd neu ymddwyn mewn modd hunanddiniostriol neu wrthgymdeithasol.

Gallai amgylchiadau anodd gynnwys:

- Profedigaeth
- Colli un neu ddau rhiant oherwydd ysgariad neu wahanu neu rhieni'n gwrthdaro'n aml
- Ffurfio uned deuluol newydd sy'n cynnwys partneriaethau newydd ymhlith oedolion
- Straen deuluol sy'n ganlyniad i ddiweithdra, incwm isel, camddefnyddio alcohol a chyffuriau a salwch meddwl.
- Trais yn y cartref a/neu cam-drin plant o fewn y teulu.
- Straen sy'n ganlyniad i riant yn cwblhau dedfryd o garchar.

2.3 Gall plant fynegi'r boen a deimlant mewn gwahanol ffyrdd, a gall bechgyn adweithio'n wahanol i ferched. Gall rhai disgyblion fynd yn bryderus a gall hynny arwain at ffobia ysgol (gweler polisi ffobia ysgol). Gall rhai plant fod yn absennol yn aml, mae eraill yn dioddef bwlio, eraill yn bwlio.

Gallai disgyblion dymuno siarad yn gyfrinachol â phlant eraill neu athrawon, ac mae ymchwil yn dangos bod presenoldeb oedolyn a all gefnogi'r plentyn a gwrando arno, wrthweithio effaith ysgariad, gwahanu a phartneriaethau newydd ymhlith oedolion.

#### 3. Datganiad o fwriad

3.1 Bydd Adran Addysg Gwynedd yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i annog a chefnogi disgyblion sydd mewn amgylchiadau anodd.

3.2 Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg a'r Seicolegwyr Addysg yn cefnogi gwaith yr ysgol.

3.3 Bydd Adran Addysg yn cydweithio gydag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda chaniatad y rhieni, gan gytuno ar ffordd ymlaen ar faterion a nodwyd

#### 4. Fframwaith Statudol

4.1 Deddf Addysg 1996

4.3 Deddf Plant 2004

#### 5. Egwyddorion Sylfaenol

5.1 Mae gan pob disgybl yr hawl i gael mynediad i addysg cyn ysgol a holl wasanaethau addysg

5.2 Mae gan pob disgybl yr hawl i gyfleoedd cyfartal ar gyfer cyrraedd llwyddiannau addysgol

#### 6. Amcanion Adran Addysg Gwynedd

6.1 Drwy waith Y Gwasanaeth Lles Addysg, ymdrin yn sensitif â sefyllfa plant teuluoedd mewn amgylchiadau anodd .

6.2 Gweithio gyda'r ysgol ac asiantaethau gwirfoddol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i blant a'u teuluoedd sy'n profi anawsterau.

6.3 Cydweithio gydag ysgol, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau perthnasol i adnabod y grŵp hwn o ddisgyblion.

## **7. Dyletswyddau Corff Llywodraethol Ysgol**

7.1 Mae'n ddyletswydd ar lywodraethywr ysgolion i sicrhau mynediad i adnoddau a darpariaeth briodol i bob disgybl

7.2 Rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r deddfau perthnasol.

7.3 Rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau bod polisiau a threfniadaeth gofal a lles plant yn cael eu adolygu'n rheolaidd

## **8. Arfer da i Benaethiaid Ysgolion**

**Bydd yr arferion gorau yn sicrhau bod ysgol yn effro i'r ffaith bod plant sy'n profi problemau yn yr ysgol yn fwy tebygol o fod yn profi problemau cartref hefyd. Bydd datblygu strategaethau ysgol gyfan ar gyfer lles a ffyniant emosiynol yn gymorth i blant helbulus hwyrach ddarganfod cysur a ffyrdd o sicrhau cynhالياeth**

8.1 Sicrhau bod polisiau lles a gofal plant gan gynnwys materion megis strategaethau gwrth fwlio, lleihau absenoldeb, mynediad i glwb brecwast, yn briodol ac yn gyfredol ac yn wybyddus i staff yr ysgol

8.2 Sicrhau bod athrawon yn sensitif i bryderon disgyblion os datgelir manylion eu sefyllfa gartref

8.3 Sicrhau bod gan y disgybl gyswilt penodol ar y staff, gan mewn rhai achosion, y byddant eisiau rhannu eu hanawsterau

8.4 Sicrhau hyfforddiant rheolaidd i staff ar faterion lles a gofal plant

8.4 Sicrhau bod yr ysgol yn gweithio gyda'r awdurdod ac asiantaethau eraill er mwyn i'r person ifanc gael y gynhالياeth orau.

8.5 Nodir isod rhai o effeithiau byw mewn amgylchiadau anodd ar bobl ifanc. Dylai ysgol sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o rai o'r effeithiau ar eu haddysg ac ymateb yn sensitif:

- Problemau cwblhau gwaith cartref ac ennill cymwysterau
- Colli cyfleoedd addysgol tu allan i'r ysgol megis clybiau ac ymweliadau
- Colli ysgol oherwydd blinder, poeni neu fwlio
- Wedi'u hynysu oddi wrth blant eraill ac aelodau eraill o'r teulu
- Diffyg amser i chwarae ac ar gyfer gweithgareddau hamdden

Iselder, pryder a diffyg hunan-parch, ac anawsterau ffurfio perthnasoedd

Dyddiad Mabwysiadu'r polisi yn wreiddiol:

Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr:

Pennaeth:

Dyddiad Adolygu'r Polisi:

